Pwy sy'n gyfrifol am roi gwybod am ddamweiniau sy'n digwydd gyflogeion ar safle rhywun arall?

Y rheoliadau perthnasol yw Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR)

Y 'person cyfrifol' sydd â dyletswydd i hysbysu o dan y rheoliadau hyn. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi pwy yw'r person cyfrifol yn y rhan fwyaf o weithleoedd:

Marwolaeth, Anaf Mawr, anaf dros 3 diwrnod, neu achos o afiechyd
Cyflogai yn y gwaith
Cyflogwr y person hwnnw

Person hunangyflogedig yn y gwaith ar safle o dan reolaeth rhywun arall
Y person sy'n rheoli'r safle: ar adeg y digwyddiad mewn cysylltiad ag unrhyw fasnach, busnes neu ymgymeriad a gynhelir ganddo.

Anaf mawr, anaf dros 3 diwrnod neu achos o afiechyd
Person hunangyflogedig yn gweithio ar safle o dan eu rheolaeth
Y person hunangyflogedig neu rywun sy'n gweithredu ar eu rhan.

Marwolaeth, neu anaf sy'n gofyn am fynd â'r person i'r ysbyty ar gyfer triniaeth (neu anaf mawr yn digwydd yn yr ysbyty)
Person nad yw yn y gwaith ond yr effeithir arno gan waith rhywun arall, e.e. aelod o'r cyhoedd, myfyriwr
Y person sy'n rheoli'r safle lle digwyddodd y ddamwain a achosodd yr anaf neu sy'n gysylltiedig â'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar y safle: ar adeg y digwyddiad; ac mewn cysylltiad ag unrhyw fasnach, busnes neu ymgymeriad a gynhelir ganddo.

Digwyddiadau Peryglus
Dylai'r person sy'n rheoli'r safle lle digwyddodd y digwyddiadau peryglus neu sy'n gysylltieidg â'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar y safle roi gwybod am y rhan fwyaf o'r digwyddiadau peryglus.

Mae'r gofynion i hysbysu yn amrywio mewn pyllau glo, chwareli, gosodiadau ar y môr, ffynhonnau a gweithredoedd plymio. Mae manylion llawn ar gael yn L73.

Cyfeiriadau
L73, A guide to rhe reporting of injuries, diseases and dangerous occurrences Regulations 1995, (ISBN 0717624315 – ar gael gan HSE Books)

- **RIDDOR Explained – taflen am ddim** [350kb]